Gweddnewid Dyfodol Plant

Cyfranogiad Diwylliannol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sy'n Byw Mewn Tlodi

Adroddiad seminar ymchwil

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
4 Hydref 2013

amgueddfa cymru national museum wales

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cynnwys

Rhan 1
Cefndir 04
Crynodeb 10
Camau gweithredu a ffyrdd ymlaen 19

Rhan 2
Themâu a thrafodaethau 24

Atodiadau
Cyfranogwyr 46
Rhaglen 48
Llyfryddiaeth 49

Cyhoeddwyd yn 2014 gan Amgueddfa Cymru, Parc Cathays, Caerdydd. CF10 3NP
Cynnwys a delweddau © Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, storio mewn system adfer na throsglwyddo unrhyw ddarn o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ffurf neu trwy unrhyw fodd boed yn drydanol, yn fecanyddol neu fel arall, heb yn gyntaf geisio caniatâd ysgrifenedig Amgueddfa Cymru neu ddeiliad/deiliaid yr hawlfraint, neu fel y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu. Dylid anfon unrhyw ymholiadau eraill at yr Adran Gyhoeddiadau, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, CF10 3NP.

Mae'r Adroddiad hwn ar gael ar ein gwefan: www.amgueddfacymru.ac.uk

Cydnabyddiaethau
Lluniwyd gan: Stephanie Roberts
Golygwyd gan: David Anderson a Janice Lane
Dylunio: www.nb-design.com

Bu modd cynnal y seminar ymchwil a chyhoeddi'r adroddiad hwn o ganlyniad i gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru.

Diolch i'r cyfranwyr canlynol am gofnodi trafodaethau a chyflwyniadau: Sarah Edmonds (Llenyddiaeth Cymru), Liz Girling (Cronfa Dreftadaeth y Loteri), Rosalyn Gee, Owain Rhys, Emma Routley a Chris Williams (Amgueddfa Cymru).

Ymwadiad
Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o'r pwyntiau a'r materion allweddol a godwyd mewn trafodaethau yn ystod y seminar ymchwil a gynhaliwyd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ar 4 Hydref 2013. Nid yw'n cynnwys trafodaeth gynhwysfawr o'r thema, ac nid yw'n honni ei fod yn adlewyrchu consensws ymhlith y cyfranogwyr ar yr holl faterion a drafodwyd. Nid yw'n honni ei fod yn adlewyrchu barn cyfranogwyr unigol a'r awduron, ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Amgueddfa Cymru. Ni all Amgueddfa Cymru gymryd cyfrifoldeb am wallau a gofnodwyd neu a godwyd mewn trafodaethau yn ystod y dydd.

'Dyma gyfraniad pwysig at un o'm prif flaenoriaethau fel y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon – **yr her i'n cyrff diwylliannol i gefnogi ein hymdrechion cyffredinol i drechu tlodi plant**. Mae'n hanfodol ein bod yn deall ac yn dosbarthu'r dystiolaeth ynghylch beth sy'n gweithio orau – a sut – er mwyn i sefydliadau diwylliannol a phartneriaid eraill allu rhoi rhaglenni a pholisïau mor effeithiol â phosibl ar waith.'

John Griffiths AC, Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru

Rhan 1
Cefndir
Crynodeb
Camau gweithredu a ffyrdd ymlaen

Cefndir

Ym mis Hydref 2013, daeth 34 o gyfranogwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd proffesiynol ledled y DU i seminar ymchwil yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i drafod thema cyfranogiad diwylliannol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi. Bu modd cynnal y seminar hon gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru.

Dyma rai o'r cwestiynau allweddol a ofynnwyd:

+ **Pa wahaniaeth gall cyfranogiad diwylliannol ei wneud i fywydau plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi?**
+ **Beth yw'r rhwystrau i gyfranogiad, a sut y gellir lleihau'r rhain?**
+ **Pa gamau ymarferol y gellir eu cymryd i wneud darpariaeth ddiwylliannol gyhoeddus yn hygyrch i'r unigolion, y grwpiau a'r cymunedau y byddai eu bywydau yn cael y budd mwyaf ohoni?**
+ **Sut y gall sefydliadau diwylliannol a threftadaeth wneud cyfraniad cadarnhaol at fentrau gwrthdlodi ehangach?**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r materion, y pwyntiau trafod a'r awgrymiadau ar gyfer gweithredu yn y dyfodol a gododd yn ystod y dydd.

Diffiniadau

Cyfranogiad diwylliannol

Gellir diffinio cyfranogiad diwylliannol mewn sawl ffordd wahanol. Gall olygu ymgysylltu ag amgueddfeydd, llyfrgelloedd, theatrau neu safleoedd treftadaeth; neu gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol mwy newydd fel sgrialu, sgiliau DJ, dawnsio stryd neu rwydweithio cymdeithasol. Gall olygu gwahanol bethau i wahanol bobl.

Cred llawer fod gweithgareddau diwylliannol megis darllen, gwrando ar gerddoriaeth neu edrych ar wrthrychau neu weithiau celf yn weithgareddau goddefol. Ond mae'r gred hon yn cael ei herio.

Gall gweithgarwch o'r fath ysgogi ymatebion creadigol i fyd sy'n llawn syniadau newydd. Gall agor meddyliau ac agor llifddorau'r dychymyg i ddyfodol llawn posibiliadau neu weithgareddau creadigol.

At ddiben y seminar ymchwil hon, yn gyffredinol ystyriwyd bod cyfranogiad diwylliannol yn golygu cymryd rhan mewn gweithgarwch, digwyddiadau neu raglenni yn sector y celfyddydau, y sector treftadaeth neu'r sector diwylliannol. Ond cydnabuwyd y gall olygu rhywbeth gwahanol iawn i blant a phobl ifanc, a bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y term yn ystyrlon ac yn berthnasol i'r oes sydd ohoni.

Plant a phobl ifanc

At ddibenion y seminar ymchwil, defnyddiwyd 'plant a phobl ifanc' i ddisgrifio unrhyw un hyd 25 oed. Ond nodwyd ei bod yn broblematig meddwl am blant a phobl ifanc fel un grŵp unffurf, a bod angen mwy o ymdrech i ddeall eu diddordebau, eu hunaniaeth a'u hanghenion amrywiol.

Cyfranogiad diwylliannol a thlodi plant

Mae cyfranogiad diwylliannol yn gyfoethog o ran ei botensial i leihau rhai o effeithiau negyddol tlodi. Gall cyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol helpu i ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol, rhoi hwb i hunanhyder, meithrin ymdeimlad o berthyn, a gwella iechyd a lles. Eto i gyd, anaml y caiff diwylliant ei ystyried yn elfen allweddol o fentrau gwrthdlodi. Yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd yn 2012, *Combating Child Poverty*, polisïau cyfranogiad cymdeithasol-ddiwylliannol yw'r maes sydd wedi'i ddatblygu leiaf o ran polisi sy'n mynd i'r afael â thlodi plant ledled yr UE.[1] Drwy gydol y seminar roedd ymdeimlad cryf bod angen i hyn gael ei herio.

Yr her sy'n wynebu'r sectorau diwylliannol, celfyddydol a threftadaeth heddiw yw sicrhau bod darpariaeth ddiwylliannol gyhoeddus yn cael ei defnyddio er budd bywydau'r rhai y mae ei hangen arnynt fwyaf. Mae'r arolygon presennol yn awgrymu bod cysylltiad agos rhwng cymryd rhan mewn gweithgarwch diwylliannol a statws economaidd-gymdeithasol. Mae plant o gartrefi ABC1 yn fwy tebygol o gymryd rhan yn y celfyddydau ac mewn gweithgareddau diwylliannol a threftadaeth na'r rhai o grwpiau C2DE.[2]

Mae Llywodraeth Cymru yn pennu lefelau Tlodi ac Amddifadedd gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog, gan ddynodi lefel uwch o angen o fewn ardaloedd daearyddol penodol. Yn ogystal, gall fod grwpiau blaenoriaeth sy'n dioddef yn fwy difrifol o ddiffyg profiadau a chyfleoedd diwylliannol – er enghraifft plant sy'n derbyn gofal, plant sydd ag anghenion addysgol arbennig, neu'r rheini a waharddwyd o'r ysgol.

Pa gamau y gellir eu cymryd i sicrhau nad yw'r plant hynny yr effeithir fwyaf ar eu bywydau gan dlodi yn colli'r manteision a ddaw yn sgil cyfranogiad diwylliannol?

[1] M. Daly, *Combating child poverty through measures promoting the socio-cultural participation of clients of the Public Centres for Social Welfare: Synthesis Report* (Medi 2012), t.5.

[2] Cyngor Celfyddydau Cymru, *Arolwg Omnibws y Plant Cyngor Celfyddydau Cymru 2012: Adroddiad ar y Prif Ganfyddiadau* (Ebrill 2013), t.6; Cyngor Celfyddydau Cymru, *Tlodi Plant ac Agenda'r Celfyddydau* (Ionawr 2012), t.4; Sarah Bloomfield a Mark Pragell, *Main Technical Report: Attending Heritage Sites* (2007), t.10.

Mae dealltwriaeth well o fanteision cyfranogiad diwylliannol ynghyd ag eiriolaeth fwy effeithiol yn hanfodol er mwyn galluogi'r sectorau diwylliant a threftadaeth i gefnogi'r ymdrechion ehangach i fynd i'r afael â thlodi plant.

Er na ellir honni y gall y sectorau diwylliannol a threftadaeth ddatrys problemau tlodi ar eu pen eu hunain, *gellir* honni bod ganddynt ran bwysicach i'w chwarae mewn mentrau gwrthdlodi na'r hyn a gydnabyddir ar hyn o bryd.

Mae lansio y *Social Justice Alliance for Museums* (SJAM) yng nghynhadledd Cymdeithas yr Amgueddfeydd yn Lerpwl ym mis Tachwedd 2013 yn arwydd o'r camau cadarnhaol tuag at gynhwysiant cymdeithasol sydd eisoes yn cael eu cymryd, ond mae llawer i'w wneud o hyd.

Ni fydd hon yn dasg hawdd. Golyga toriadau difrifol yn y sector cyhoeddus fod awdurdodau lleol o dan bwysau cynyddol i wneud penderfyniadau anodd am ddyrannu adnoddau. Mae darpariaeth ddiwylliannol, nad yw'n rhwymedigaeth statudol, o dan fygythiad penodol. Mae hyn yn amlwg mewn llawer o ardaloedd yn y DU. Mae hyd yn oed awdurdodau lleol sydd wedi buddsoddi mewn asedau diwylliannol fel nodwedd allweddol o agendâu craidd wedi'u gorfodi i wneud toriadau sylweddol i gyllidebau diwylliannol.

> **Rwy'n argyhoeddedig… bod cyfranogiad mewn gweithgarwch diwylliannol yn hybu cyfleoedd bywyd pobl.**
> **Jeff Cuthbert AC, Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi Llywodraeth Cymru**

Y cyd-destun yng Nghymru

Mae'n arbennig o briodol bod y seminar ymchwil hon wedi'i chynnal yng Nghymru. Yn 2010, lansiodd Llywodraeth Cymru ei Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru), a roddodd ddyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus ac awdurdodau lleol i ddangos eu hymrwymiad i ddileu tlodi plant. Yn dilyn hyn, cyhoeddwyd ei Strategaeth Tlodi Plant, ac yn fwy diweddar Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi ar ei newydd wedd, *Creu Cymunedau Cryf*.

Ym mis Awst 2013, comisiynodd Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru y Farwnes Kay Andrews i lunio adroddiad ar sut y gall cyrff diwylliannol a threftadaeth weithio'n agosach i ehangu mynediad i gyfranogiad mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at ddileu canlyniadau tlodi yng Nghymru. Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2014.

Mae Comisiynydd Plant Cymru hefyd wedi llunio Strategaeth Tlodi Plant.[4] Ei nod yw hyrwyddo a chynorthwyo ymarfer yn seiliedig ar hawliau, fel y nodir yn Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae hyn yn nodi bod mynediad i gyfleoedd diwylliannol ac artistig a chymryd rhan ynddynt yn hawl sylfaenol i bob plentyn a pherson ifanc. Mae hyrwyddo polisi sy'n seiliedig ar hawliau hefyd yn un o amcanion allweddol Grŵp Monitro CCUHP Cymru. Yn 2013, cyhoeddodd adroddiad *Hawliau Nawr, Hawliau Heddiw* a geisiodd fesur i ba raddau y mae'r gyfraith, polisi ac ymarfer yng Nghymru yn cyflawni yn erbyn canllawiau'r CCUHP.[5]

Awgrymodd y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi Vaughan Gething yn ddiweddar, 'ein bod yn gwneud mwy ac yn symud yn gynt yn ein hymdrechion i drechu tlodi na Llywodraeth y DU a phob gweinyddiaeth ddatganoledig arall'[3]

[3] Llywodraeth Cymru, 'Cyflwyno tystiolaeth ar dlodi plant i Gomisiwn y DU' (2 Medi 2013) http://cymru.gov.uk/newsroom/childrenandyoungpeople/2013/child-poverty-evidence-given-to-uk-commission/?skip=1&lang=cy

[4] Cafodd strategaeth y Comisiynydd Plant ei chyhoeddi gyntaf yn 2012, a chaiff ei diweddaru'n flynyddol. Comisiynydd Plant Cymru, *Strategaeth Tlodi Plant: 2012 Symud ymlaen*.

[5] Achub y Plant, *Hawliau Nawr, Hawliau Heddiw: A yw Hawliau Plant yn Realaeth yng Nghymru?* Adroddiad Interim Cyrff Anllywodraethol Cymru, gol. Rhian Croke (Caerdydd: Achub y Plant, Mawrth 2013). Mae Pennod 7 'Addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol' yn edrych yn benodol ar hawliau plant 'i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a hamdden... a chymryd rhan mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau', er bod ei phwyslais yn bennaf ar ddatblygu'r sector gwaith chwarae a theori chwarae yng Nghymru, t.72-77.

Ymagwedd Amgueddfa Cymru

Mae mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol o ganlyniad i dlodi plant yn ymrwymiad allweddol i Amgueddfa Cymru, ac mae gweithgarwch yn ymwneud â'r maes hwn wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf.

Nododd *Gweddnewid Dyfodol Plant drwy greu llwybrau ar gyfer cyfranogiad diwylliannol,* a gyhoeddwyd yn 2012, nodau strategol yr Amgueddfa i fynd i'r afael â thlodi cyfranogiad ymhlith plant a phobl ifanc.[6] Yn yr un flwyddyn, cyhoeddodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri ei bod yn cyfrannu £11.5 miliwn tuag at *Creu Hanes*, project ailddatblygu uchelgeisiol i weddnewid Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yn amgueddfa gyfranogol, a hynny'n genedlaethol.[7] Hefyd yn 2012 cynhaliwyd cynhadledd gyhoeddus undydd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, *Gweddnewid Bywydau Plant*, a ystyriodd rôl sefydliadau diwylliannol o ran mynd i'r afael â'r agenda gwrthdlodi ac ymgysylltu â hi.[8]

Roedd y seminar ymchwil a ystyrir yn yr adroddiad hwn yn dilyn ymlaen o'r mentrau hyn. Y bwriad oedd rhoi llwyfan ar gyfer trafodaeth â mwy o ganolbwynt iddi, yn seiliedig ar ymchwil, a nodi argymhellion ar gyfer y camau gweithredu yn y dyfodol sydd eu hangen i helpu i ategu'r agenda tlodi plant yng Nghymru, ac mewn mannau eraill yn y DU. Mae'n cyd-fynd â chyhoeddi *Gweddnewid Bywydau Plant*, pecyn adnoddau i gefnogi cyrff celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth wrth iddynt fynd ati i greu llwybrau at gyfranogiad diwylliannol. Bydd ar gael i'w lawrlwytho o wefan yr Amgueddfa o fis Ebrill 2014 ymlaen.

[6] Amgueddfa Cymru, *Gweddnewid Dyfodol Plant drwy greu llwybrau ar gyfer cyfranogiad diwylliannol: Strategaeth Amgueddfa Cymru i gefnogi cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd mewn tlodi 2012-2015* (2012) http://www.amgueddfacymru.ac.uk/gweddnewid_dyfodol

[7] Ar gyfer *Creu Hanes*, gweler www.amgueddfacymru.ac.uk/4226.

[8] Gellir gweld cyflwyniadau o'r gynhadledd hon ar-lein: http://www.amgueddfacymru.ac.uk/gweddnewid_dyfodol

Crynodeb

Y seminar

Roedd rhaglen y dydd yn seiliedig ar dri phrif gwestiwn:

+ **Beth yw bywydau a chymhelliant diwylliannol plant a phobl ifanc?**
+ **Beth yw manteision ac effeithiau cyfranogiad yn y ddarpariaeth ddiwylliannol gyhoeddus?**
+ **Beth a ddywed gwaith ymchwil wrthym sy'n rhaid ei wneud er mwyn newid bywydau diwylliannol plant a phobl ifanc er gwell ac yn gynaliadwy?**

Roedd pob thema yn cynnwys sbardunau 5 munud gan siaradwyr dethol, wedi'u dilyn gan drafodaethau grŵp. Roedd y sesiwn lawn ar y diwedd yn gyfle i ddwyn ynghyd argymhellion, camau gweithredu a ffyrdd ymlaen.

Cafodd Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi Llywodraeth Cymru, Jeff Cuthbert, a'r Farwnes Kay Andrews hefyd eu gwahodd i annerch y cyfranogwyr, a rhoi trosolwg o'u blaenoriaethau mewn perthynas â'r agenda hon.

Ysgogodd y diwrnod drafodaeth eang, gan adlewyrchu amrywiaeth eang o ddiddordebau a phrofiad proffesiynol y cyfranogwyr. Mae'r adroddiad cryno hwn yn rhoi trosolwg byr o rai o'r materion a phwyntiau trafod allweddol, yng nghyd-destun trafodaethau ehangach.

Pwyntiau trafod allweddol

1. Diffinio amcanion

Os yw'r sectorau diwylliannol a threftadaeth eisiau hawlio'n gredadwy y rhan sydd ganddynt i'w chwarae mewn perthynas â mentrau gwrthdlodi, mae angen iddynt bennu amcanion realistig. Gall honiadau rhy uchelgeisiol ond niweidio hygrededd. Fel y nododd un cyfranogwr, mae'n annhebygol y gall cyfranogiad diwylliannol *ddileu* tlodi mewn gwirionedd; ond *gall* helpu i leihau rhai o'i effeithiau negyddol megis allgáu cymdeithasol, straen, neu gyrhaeddiad addysgol gwael.

Er enghraifft, mae adolygiad annibynnol diweddar yr Athro Dai Smith yn awgrymu bod tystiolaeth gymhellol bod gan y celfyddydau a dysgu creadigol ran allweddol i'w chwarae o ran cau'r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol.[9] Dyma amcan mwy credadwy na dileu tlodi yn gyfan gwbl.

Roedd llawer yn teimlo bod angen egluro'r derminoleg. Gellir diffinio 'cyfranogiad diwylliannol' mewn sawl ffordd wahanol. Y perygl yw y daw'n derm cyffredinol, a ddefnyddir i ddynodi unrhyw fath o ymgysylltu. Mae angen ei ddiffinio'n fwy ystyrlon, a'i ddefnyddio'n gyson ar draws sectorau gwahanol.

Mae angen ystyried y term 'tlodi' hefyd. Nid dim ond angen ariannol neu fod heb waith yw tlodi.[10] Gellid hefyd ystyried tlodi o ran cyfle, mynegiant, cymhelliant neu ddyhead hefyd. Pa dlodi a thlodi pwy y mae'r sectorau diwylliannol a threftadaeth yn ceisio mynd i'r afael ag ef?

Mae'n annhebygol y gall cyfranogiad diwylliannol ddileu tlodi mewn gwirionedd; ond gall helpu i leihau rhai o'i effeithiau negyddol megis allgáu cymdeithasol, straen, neu gyrhaeddiad addysgol gwael.

[9] Yr Athro Dai Smith, *Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru* (Medi 2013), t.15. Mae'r cysylltiad rhwng cyfranogi yn y celfyddydau a chyflawniad academaidd wedi cael ei herio mewn mannau eraill. Gweler Helen Jermyn, *Arts and Social Exclusion: a report prepared for the Arts Council of England* (Tachwedd 2011), t.19-20.

[10] Mae adroddiad gan Sefydliad Joseph Rowntree yn awgrymu bod 61% o blant sydd mewn tlodi yn y DU yn dod o deuluoedd sydd ag o leiaf un rhiant sy'n gweithio. www.jrf.org.uk/blog/2012/06/relentless-rise-work-poverty

2. Newid o'r tu mewn allan

Roedd llawer yn teimlo os yw sefydliadau diwylliannol, treftadaeth a chelfyddydol eisiau newid bywydau pobl, mae cyfrifoldeb ar y sefydliadau hynny i newid eu hunain yn gyntaf. Ni fydd hon yn dasg hawdd. Bydd y newid sydd ei angen yn cael effaith sylweddol ar lywodraethu, blaenoriaethau sefydliadol, dyrannu adnoddau a dulliau gweithio.

Roedd awgrymiadau o'r seminar am ffyrdd y gall sefydliadau ddechrau cymryd camau cadarnhaol tuag at newid yn cynnwys:

Ymgorffori egwyddorion cydgynhyrchu
Dylid rhoi lle i blant a phobl ifanc ar baneli sy'n gwneud penderfyniadau, a dylent chwarae rhan uniongyrchol yn y broses o ddylunio a chyflawni projectau ac arddangosiadau.

Datblygu sgiliau gwrando
Mae angen i sefydliadau diwylliannol a threftadaeth ddatblygu eu sgiliau gwrando eu hunain fel eu bod yn gallu adnabod lleisiau a barn plant a phobl ifanc yn well ac ymateb iddynt. Mae adroddiad diweddar gan Grŵp Monitro CCUHP yn awgrymu bod fforymau cyfranogol wedi tangyflawni yn y gorffennol oherwydd yn rhy aml mae'r canolbwynt ar roi'r hawl i blant gael eu *clywed*, yn hytrach na'r hawl i eraill *wrando arnynt* – dyma wahaniaeth pwysig i'w nodi.[11]

[11] Achub y Plant, *Hawliau Nawr, Hawliau Heddiw: A yw Hawliau Plant yn Realaeth yng Nghymru?* Adroddiad Interim Cyrff Anllywodraethol Cymru, gol. Rhian Croke (Mawrth 2013), t.24-25.

Herio rhagdybiaethau presennol o blant a phobl ifanc
Nododd Sarah Crawley, Pennaeth Tlodi ac Atal Tlodi Dinas a Sir Abertawe, fod plant a phobl ifanc yn aml yn cael eu disgrifio fel dioddefwyr goddefol tlodi ac anfantais; pan, mewn gwirionedd, mae ganddynt lawer i'w gynnig fel cyfranogwyr gweithredol wrth chwilio am atebion.

Tynnodd un cyfranogwr sylw at erthygl yn y *Financial Times* sy'n dangos canlyniadau cadarnhaol herio rhagdybiaethau o'r fath. Disgrifiodd yr erthygl sut y gwnaeth Oriel Bortreadau Genedlaethol Washington, ar ôl cael cwynion gan drigolion lleol am grŵp o blant yn eu harddegau â phroblemau a oedd yn ymgasglu ar risiau'r oriel, droi hyn yn gyfle drwy eu gwahodd i'r Amgueddfa a rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu a chyflwyno eu sioe ffasiwn eu hunain.[12] Crëwyd profiad cadarnhaol trwy drin y bobl ifanc hyn fel cyfranogwyr gweithredol gyda rhywbeth i'w gynnig.

Awgrymwyd y gellid cyfeirio mwy o sylw at ddeall gwahanol is-ddiwylliannau pobl ifanc, a'r diddordebau a phatrymau gwahanol sy'n gysylltiedig â'r grwpiau hyn.

> **Dylai plant fod yn cymryd rhan yn y frwydr am gynnydd cymdeithasol am fod ganddynt yr hawl i hyrwyddo eu diddordebau eu hunain… ac am fod ganddynt wybodaeth a syniadau y gall pawb gael budd ohonynt.**
> **Sarah Crawley, Pennaeth Tlodi ac Atal Tlodi, Dinas a Sir Abertawe**

[12] Anna Fifield, '*Model Solution*', *FT Urban Ingenuity* (12 Medi 2013), t.21-23. Gyda diolch i Robert Willis am dynnu sylw at yr adroddiad hwn.

Cwestiynu gwerthusiadau
Yn rhy aml, yr hyn sy'n sail i werthusiadau yw anghenion y sefydliad yn hytrach nag anghenion ei ymwelwyr. Weithiau mae awydd i brofi gwerth neu ddathlu llwyddiant yn drech nag ymdrechion difrifol i ddarganfod a oedd cyfranogi mewn project wedi cael unrhyw effaith wirioneddol ar y rhai a gymerodd ran. Mae angen mwy o gywirdeb, gonestrwydd a ffurf fwy trwyadl o gwestiynu er mwyn i werthusiadau fod yn ystyrlon.

Ailasesu natur projectau
Nododd llawer o gyfranogwyr y gall projectau tymor byr neu untro gael effaith gyfyngedig yn yr hirdymor. Nid ydynt yn gynaliadwy ac yn aml maent yn gadael cyfranogwyr yn teimlo y cefnwyd arnynt wedi i'r project ddod i ben. Dadleuodd Lynn McDonald (Prifysgol Middlesex) a Mark O'Neill, (Glasgow Life) fod cysylltiad â chyfleoedd diwylliannol o safon gyson, drosodd a throsodd yn cael mwy o effaith na phrofiadau untro. Cafwyd hyd yn oed awgrym y gellid cymharu ymgysylltu diwylliannol ag ymarfer corff: mae profiadau rheolaidd, drosodd a throsodd yn fwy effeithiol na chyfnodau untro, dwys o gysylltu. Gallai cyllidwyr helpu i alluogi hyn drwy gynnig cymorth cynaliadwy, hirdymor.

Mae safbwynt mwy cynaliadwy am ymgorffori arferion yn bosibl, lle mae rhan a chyfranogiad plant a phobl ifanc yn ddull rhagosodedig. Mae a wnelo'r mater hwn â dull yn hytrach na phrojectau neu fentrau unigol, lle bydd cyfranogi ymarferol yn dod yn rhan annatod o bob rhaglen, digwyddiad neu arddangosfa.

Mae projectau tymor byr yn peri problemau penodol: nid ydynt yn gynhyrchiol nac yn gynaliadwy, ac mewn rhai achosion prin yw eu heffaith ar y boblogaeth ehangach.

3. Dysgu fel Teulu

Cododd pwysigrwydd dysgu fel teulu nifer o weithiau. Mae agweddau plant a phobl ifanc tuag at gyfranogiad diwylliannol yn aml yn cael eu llunio gan farn eu rhieni neu eu gofalwyr. Mae'n hawdd trosglwyddo agweddau negyddol neu apathi o un genhedlaeth i'r llall. Mae llawer o astudiaethau ac adroddiadau diweddar yn ategu'r farn hon.[13] Os yw'r sectorau diwylliannol, treftadaeth a chelfyddydol eisiau cynyddu gwerth cyfranogi a pha mor aml mae pobl yn cyfranogi, dylid rhoi mwy o bwyslais ar ymgysylltu â'r teulu cyfan neu ar draws cenedlaethau.

Pwysleisiodd adroddiad gan NIACE, *Family Learning Works*, a gyhoeddwyd ychydig wythnosau yn unig ar ôl y seminar, bwysigrwydd dysgu fel teulu hefyd. Honnwyd y gall dysgu da fel teulu wella cyfleoedd bywyd, rhoi hwb i hyder, a gwella sgiliau addysgol gan gynnwys sgiliau llythrennedd a rhifedd. Un o'r argymhellion allweddol i Gymru yn yr adroddiad oedd y dylai dysgu fel teulu fod yn rhan annatod o strategaethau ysgolion i wella cyrhaeddiad plant a chau'r bwlch rhwng y cyflawnwyr isaf a'r cyflawnwyr uchaf.[14]

Yn ystod y seminar ymchwil, awgrymwyd y dylai amgueddfeydd a sefydliadau diwylliannol ystyried cyfeirio mwy o adnoddau tuag at fentrau dysgu fel teulu yn hytrach na rhaglenni dysgu ffurfiol. Cafwyd ymateb cymysg i hyn. Fodd bynnag, mae'n faes y mae angen ymchwilio ymhellach iddo, oherwydd gall rôl, athroniaeth a diwylliant ysgolion ac addysg ffurfiol weithredu naill ai fel llwybr neu rwystr i gyfranogiad diwylliannol. Mae'r newidiadau diweddar a gwahanol iawn mewn ymagwedd at ddysgu a'r Cwricwlwm a fabwysiadwyd yn Lloegr a'r Alban, a'r adroddiad diweddar *Y Celfyddydau mewn Addysg* gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn nodi'n glir nad yw ymagweddau addysgol ffurfiol yn gyson o ran eu cefnogaeth i gyfranogiad diwylliannol nac o ran cydnabod ei werth.

[13] Canolfan Ymchwil y Trydydd Sector, *Briefing Paper 102: What factors predict volunteering among youths in the UK?* gan Matthew Bennett a Meenakshi Parameshwaran (Gorffennaf 2013), t.3; Belinda Pratten, *Mapping the Cuts: A report to the Esmée Fairbairn Foundation* (Mai 2013), t.11; SQW Consulting, *Evaluation of Find your Talent – overview report*, gan Michael Frearson (Hydref 2012), t.22, t.28; Sarah Bloomfield a Mark Pragell, *Main Technical Report: Attending Heritage Sites, a quantitative analysis of data from the Taking Part survey* (2007), t.43.

[14] NIACE, *Family Learning Works: The Inquiry into Family Learning in England and Wales* (Hydref 2013), t.29.

4. Cryfhau cydweithio traws-sector

Er mwyn manteisio i'r eithaf ar effaith cyfranogiad diwylliannol, mae'n hanfodol bod sectorau a darparwyr gwasanaethau eraill – gan gynnwys ysgolion, awdurdodau lleol, elusennau, arianwyr, cymdeithasau tai, byrddau iechyd a darparwyr addysg uwch – yn cydweithio'n agosach â'r sectorau diwylliannol a threftadaeth. Fel y mae Grŵp Monitro CCUHP Cymru wedi'i honni, mae mynd i'r afael â thlodi plant yn gyfrifoldeb y dylid ei rannu ar draws pob sector a phortffolio'r llywodraeth.[15]

Mae angen gwneud mwy i hyrwyddo pwysigrwydd cyfranogiad diwylliannol mewn perthynas â thlodi plant; i ddangos sut y gall sectorau eraill gyfrannu at yr agenda hon; ac i hyrwyddo'r angen am fwy o gydgysylltu systemig. Yn adroddiad y Farwnes Kay Andrews, sydd i'w gyhoeddi ym mis Mawrth 2014, gwneir argymhellion ar ffyrdd o sicrhau cydweithio strategol i helpu i leihau tlodi yng Nghymru. Byddai mwy o gydweithio yn galluogi cyfuno adnoddau, gwybodaeth a chanfyddiadau ymchwil sydd ar hyn o bryd wedi'u rhannu ar draws sectorau gwahanol.

> **Mae brwdfrydedd ar y cyd, gwneud cynigion ar y cyd a chyflawni ar y cyd yn allweddol.**
> **Y Farwnes Kay Andrews**

[15] Achub y Plant, *Hawliau Nawr, Hawliau Heddiw: A yw Hawliau Plant yn Realaeth yng Nghymru?* Adroddiad Interim Cyrff Anllywodraethol Cymru gol. Rhian Croke (Mawrth 2013), t.24-25.

5. Gweithio gyda chymunedau

Roedd llawer o gyfranogwyr yn teimlo bod plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried ar wahân i'w cymunedau ehangach yn rhy aml, a bod angen i hyn newid. Nid yw 'cymuned' yn yr ystyr hwn bob amser yn ddaearyddol. Gall hefyd fod yn ddiwylliannol, neu gellir ei defnyddio i ddynodi grŵp o bobl sy'n rhannu diddordebau tebyg. Gallai'r sectorau diwylliannol a threftadaeth gael budd o wneud mwy o ymdrech i ddeall y cymunedau hyn, a datblygu a chynnal perthnasoedd â hwy.

Gellid rhoi mwy o bwyslais ar gryfhau cysylltiadau cyfathrebu â'r rhai yn y rheng flaen fel gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr ieuenctid neu swyddogion Cymunedau yn Gyntaf i'w gwneud yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd ar gael a sut y gellir defnyddio cyfranogiad diwylliannol i gefnogi eu rolau. Trwy hyn, gall sefydliadau diwylliannol gael budd o'u gwybodaeth a'u cyfoeth o brofiad.

6. Trawsnewid mannau

Gellid defnyddio mannau lleol yn fwy creadigol i gefnogi'r agenda gwrthdlodi. Fel y nododd y Farwnes Andrews, ceir pŵer yn lleol. Gellir defnyddio mannau, lleoedd ac asedau amgylcheddol, treftadaeth a hanesyddol cymunedau i feithrin ymdeimlad o falchder, perthyn a dealltwriaeth ddiwylliannol mewn cymunedau.

Gallai safleoedd diwylliannol, celfyddydol a threftadaeth wneud mwy i wneud mannau presennol yn fwy hygyrch a chroesawgar i amrywiaeth ehangach o ymwelwyr. Awgrymwyd hefyd y gallent ymchwilio i'r potensial am ddefnydd mwy creadigol ac amlochrog o fannau.

Er enghraifft, disgrifiodd Jo Reilly, Pennaeth Cyfranogiad a Dysgu Cronfa Dreftadaeth y Loteri, broject arloesol lle y gwahoddodd Royal Festival Hall yng Nghanolfan Southbank yn Llundain ysgol gynradd leol i ddefnyddio'u lleoliad fel ystafell ddosbarth am dymor cyfan. Cyfeiriwyd at waith diweddar Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i adnewyddu ei lyfrgelloedd a'u troi'n ganolfannau cymunedol amlbwrpas hefyd fel enghraifft dda o sut y gall adeiladau presennol gael eu trawsnewid yn fannau sydd â'r potensial i ddenu ymwelwyr newydd, a chynnwys teuluoedd a grwpiau cymunedol cyfan.

Roedd pwysigrwydd meddwl yn ofalus am fannau a sut y gellid eu defnyddio'n fwy creadigol i gefnogi'r agenda gwrthdlodi yn thema allweddol a ddaeth i'r amlwg.

Camau gweithredu a ffyrdd ymlaen

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr gynnig camau gweithredu ymarferol neu gamau nesaf. Yr awgrymiadau allweddol oedd:

1. Llunio cod moeseg neu gyfres o egwyddorion ar gyfer cyfranogiad diwylliannol mewn perthynas â thlodi plant

Dylai'r cod moeseg hwn:

+ ddangos a diffinio arferion gorau
+ nodi sut y gall darparwyr gwasanaethau ar draws pob sector gan gynnwys awdurdodau lleol, elusennau, arianwyr, cymdeithasau tai, byrddau iechyd, prifysgolion ac ymchwilwyr, yn ogystal â sefydliadau diwylliannol a threftadaeth, gydweithio tuag at sefydlu a chefnogi arfer cyfranogol fel nodwedd allweddol o'r agenda gwrthdlodi ehangach
+ bod yn ymarferol, yn hawdd ei fesur, a sicrhau bod gwahaniaeth clir rhyngddo ag egwyddorion cyfranogi eraill sydd eisoes yn bodoli
+ cael ei ddatblygu mewn modd cydgynhyrchiol
+ bod yn ymatebol i gyd-destunau rhanbarthol a chenedlaethol gwahanol.

Awgrymwyd y gellid datblygu a threialu'r egwyddorion hyn yng Nghymru, a'u cyflwyno i rannau eraill o'r DU maes o law.

2. Sefydlu grŵp llywio i hybu'r agenda hon yng Nghymru

Dylid sefydlu grŵp llywio craidd i hyrwyddo a chynorthwyo gwerth cyfranogiad diwylliannol mewn perthynas â'r agenda tlodi plant yng Nghymru. Diben y grŵp fyddai:

- eirioli gyda'r Llywodraeth a chyrff eraill i sicrhau gwell dealltwriaeth o fanteision ac effeithiau cyfranogiad diwylliannol
- creu llwybrau i roi'r egwyddorion a sefydlwyd gan y cod moeseg ar waith, gan gynnwys mwy o gydweithio â darparwyr gwasanaethau eraill
- nodi a chreu cyfleoedd ar gyfer meysydd ymchwil newydd posibl
- cyfathrebu cynnydd â chyfranogwyr y seminar o weddill y DU a phartïon eraill sydd â diddordeb.

3. Ehangu'r drafodaeth i gynnwys cyrff cyllido

Dylai cyrff cyllido gael eu cynnwys yn y sgwrs hon. A oes ffordd o gysoni ein hanghenion yn well? A ellir annog cyllidwyr i flaenoriaethu projectau sydd, er enghraifft, yn dangos ymrwymiad i ymgorffori arferion gorau mewn cyfranogiad diwylliannol?

4. Dechrau cryfhau'r sylfaen dystiolaeth drwy greu cyfleoedd ar gyfer ymchwil ar y cyd manylach

Gallai ymarferwyr diwylliannol fod yn rhagweithiol o ran datblygu sylfaen dystiolaeth fwy credadwy drwy annog a hyrwyddo ymchwil ar y cyd i'r maes. Gallent gydweithio â phrifysgolion ac ymchwilwyr academaidd i sicrhau mwy o gydlyniant rhwng ymarfer a theori cyfranogiad diwylliannol, a chreu mwy o gyfleoedd i rannu a chrynhoi canlyniadau projectau ymchwil presennol.

Awgrymiadau ar gyfer meysydd ymchwil posibl:

- Ymchwil hydredol ar effaith cyfranogiad diwylliannol mewn perthynas ag iechyd a lles, neu mewn perthynas â chyrhaeddiad addysgol[16]
- Sut y gall darparwyr addysg ffurfiol a mentrau dysgu fel teulu gael eu cydgysylltu'n well i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl ar agweddau plant at gyfranogiad diwylliannol a'u lefelau cyfranogi
- Ymchwil gymharol ar effaith ymyriadau cyfranogol tymor byr a hirdymor
- Sut mae strwythur, dyluniad a phensaernïaeth yn effeithio ar ganfyddiadau a phatrymau ymddygiad? O ran y rhai nad ydynt yn ymweld, beth yw eu canfyddiad o leoliadau, safleoedd a mannau diwylliannol a sut y maent yn ymateb iddynt?
- Patrymau ymddygiad gwahanol is-ddiwylliannau ieuenctid o ran cyfranogiad diwylliannol, eu hagweddau tuag at hynny a sut maent yn ymgysylltu.

[16] Ar gyfer cyfranogiad diwylliannol mewn perthynas ag iechyd a lles, gweler Cyngor Celfyddydau Lloegr, *Be Creative Be Well: Arts, wellbeing and Local Communities*, gan Richard Ings, Nikki Crane a Marsaili Cameron (2012), t.15, 31; Cyngor Celfyddydau Cymru, *Participation in the Arts: Inquiry by the National Assembly for Wales Communities, Equality and Local Government Committee* (Mawrth 2012), t.3; *Culture Vultures: Is UK arts policy damaging the arts?* gol. Munira Mirza (2006), t.94-95; Cyngor Celfyddydau Lloegr, *What's art got to do with it? Briefing paper on the role of the arts in neighbourhood renewal*, gan Phyllida Shaw (Mai 2003), t.13-14.

Rhan 2
Themâu a thrafodaethau

HOOKER'S
MALTED MILK
OVALTINE
Cerebos
LYONS' COFFEE EXTRACT SOLD HERE
LEMONADE
COCOA

Themâu a thrafodaethau

Cyflwyniad

David Anderson
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Amgueddfa Cymru

Agorodd David Anderson y seminar ymchwil drwy groesawu'r cyfranogwyr ac amlinellu prif ddibenion y dydd. Mae'r seminar yn canolbwyntio ar dlodi plant a chyfranogiad diwylliannol yn hytrach na materion ehangach yn ymwneud â mynediad a chynhwysiant oherwydd yn ei farn ef mae hwn yn faes sy'n cynnwys y potensial mwyaf ar gyfer gweddnewid.

Gall cyfranogiad diwylliannol weddnewid bywydau ac *mae'n* gweddnewid bywydau; ac er na all sector y celfyddydau, y sector diwylliannol a'r sector treftadaeth ddatrys tlodi, mae ganddynt rôl o ran lliniaru ei effeithiau a gwella ansawdd bywyd. Mae'n bosibl mai'r ffordd o gyflawni hyn yw'r mater mwyaf heriol yn ddeallusol sy'n wynebu'r sector heddiw, ond mae gennym oll gyfrifoldeb moesegol a phroffesiynol i fynd i'r afael yn weithredol â'r her hon.

Nid darparu atebion yw diben y seminar hon, ond llunio cwestiynau, a dechrau proses o drafod, deall a gweithredu a fydd yn sail i newid yn y dyfodol.

> **Rydym yn ymwneud heddiw â mynd i'r afael â'n cyfrifoldebau moesegol dyfnach. Mae hwn yn gyfrifoldeb proffesiynol, ac yn rhywbeth y mae deddfwriaeth a chodau proffesiynol yn ei gwneud yn ofynnol i ni fynd i'r afael ag ef.**
> **David Anderson**
> **Cyfarwyddwr Cyffredinol, Amgueddfa Cymru**

Cyflwyniad arbennig

Y Farwnes Kay Andrews

Mae'r Farwnes Kay Andrews wedi'i chomisiynu gan Lywodraeth Cymru i ymchwilio i ffyrdd y gall cyrff celfyddydol a threftadaeth weithio ar y cyd i wneud mwy o gyfraniad at leihau tlodi yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Yn ystod ei chyflwyniad disgrifiodd yr heriau a'r cwestiynau sydd wedi codi yn ystod ei hymchwil.

Awgrymodd fod cysylltiad rhwng tlodi materol a thlodi diwylliannol. Galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad i'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth a chyfranogi ynddynt yw'r cam cyntaf tuag at sicrhau nad hwy fydd y genhedlaeth nesaf o oedolion mewn tlodi.

Gall rhyddhau creadigrwydd mewn plant arwain at effaith gadarnhaol ar y gymuned ehangach. Er enghraifft, cafodd ysgol yn Abertawe gyllid yn ddiweddar i roi iPads i bob disgybl. Arweiniodd hyn nid yn unig at wella cyrhaeddiad addysgol disgyblion a'u hawydd i ddysgu, ond at effaith gadarnhaol ar rieni a oedd wedi ymddieithrio cyn hynny, a dechreuodd llawer ohonynt chwarae rhan gynyddol mewn gweithgareddau a chynlluniau codi arian yr ysgol.

Mae synergedd a dysgu a rennir yn hanfodol i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl. Mae angen i'r sectorau diwylliant a threftadaeth gryfhau eu llinellau cyfathrebu, ehangu eu trafodaethau a dechrau mynegi dibenion cyffredin, yn enwedig mewn cymunedau lleol lle mae'r drafodaeth ar ei gwannaf ar hyn o bryd. Mae gan fannau lleol a'r amgylchedd lleol rôl bwysig i'w chwarae yn hyn o beth – gall asedau treftadaeth a hanesyddol cymuned helpu i feithrin ymdeimlad o berthyn a dealltwriaeth ddiwylliannol, sy'n hanfodol i greu cymunedau cryf. Daeth i'r casgliad fod gweithio a chyflawni ar y cyd yn hanfodol i symud yr agenda hon yn ei blaen.

> **Galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad i'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth a chyfranogi ynddynt yw'r cam cyntaf tuag at sicrhau nad hwy fydd y genhedlaeth nesaf o oedolion mewn tlodi.**
> **Y Farwnes Kay Andrews**

Cyflwyniad arbennig

Jeff Cuthbert AC
Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Llywodraeth Cymru

Rhoddodd Jeff Cuthbert AC drosolwg o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfiawnder cymdeithasol a threchu tlodi yng Nghymru. Rhoddodd grynodeb o flaenoriaethau allweddol y Llywodraeth fel yr amlinellir yn C*reu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi* (Gorffennaf 2013). Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i wella cyrhaeddiad addysgol plant o'r teuluoedd tlotaf, a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu pobl ifanc o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.[17]

Mae gan ddiwylliant ran i'w chwarae o ran yr ateb hirdymor i dlodi. 'Rwy'n argyhoeddedig… bod cyfranogi mewn gweithgarwch celfyddydol yn hybu cyfleoedd bywyd pobl' nododd, gan ychwanegu bod Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru yn ceisio cynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymgysylltu â diwylliant, y celfyddydau a threftadaeth.

Rhoddwyd sawl enghraifft o brojectau llwyddiannus sydd eisoes wedi'u cynnal yng Nghymru gan gynnwys project *Gwychder Dibwys* Amgueddfa Cymru, a ariannwyd gan Gronfa Ganlyniadau Cymunedau yn Gyntaf, a *Phrosiect Cymunedol Llanmelin* Cadw, menter archaeoleg gymunedol.[18] Er bod projectau a mentrau o'r fath yn adlewyrchu ansawdd ac amrywiaeth y gwaith a wneir yng Nghymru, yr her yn awr yw ymgorffori'r enghreifftiau hyn o arfer da a'u cyflwyno, ac i ddod yn fwy cydlynol o ran ymagwedd.

> **Mae diwylliant a threftadaeth eisoes yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus mewn llawer o ffyrdd i wella bywydau pobl. Fy nghwestiwn i yw sut y gallwn gyflwyno ac ymgorffori enghreifftiau o arfer da, a bod yn fwy cydgysylltiedig yn ein hymagwedd?**
> **Jeff Cuthbert AC**
> **Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
> **Llywodraeth Cymru**

[17] http://cymru.gov.uk/topics/people-and-communities/tacklingpoverty/publications/taking-forward-tack-pov-plan/?lang=cy

[18] I gael gwybodaeth am *Gwychder Dibwys*, gweler Amgueddfa Cymru, *Gweddnewid Dyfodol Plant*, t.16. http://www.amgueddfacymru.ac.uk/gweddnewid_dyfodol

Thema 1: Beth yw bywydau a chymhelliant diwylliannol plant a phobl ifanc?

Roedd thema gyntaf y dydd yn seiliedig ar ymdrechion i ddiffinio a deall bywyd diwylliannol plant. Beth mae diwylliant a chyfranogiad diwylliannol yn ei olygu i blant a phobl ifanc heddiw? Sut mae darpariaeth ddiwylliannol gyhoeddus yn rhan o fywydau plant? A beth yw'r cymhellion a'r rhwystrau ar gyfer ymgysylltu â darpariaeth ddiwylliannol?

Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru, oedd y cyntaf i fynd i'r afael â'r thema hon. Dechreuodd drwy bwysleisio pwysigrwydd Erthygl 31 o *Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*, sy'n nodi bod gan blant a phobl ifanc hawl sylfaenol i gyfranogi mewn gweithgarwch diwylliannol, artistig a chwareus. Mae dyletswydd arnom i'w galluogi i ddefnyddio'r hawl hon.

Dadleuodd ei bod yn allweddol rhoi llais iddynt. Os ydym am ddeall bywydau diwylliannol plant a phobl ifanc a'r hyn sy'n eu hysgogi, mae angen i ni greu llwyfannau iddynt allu mynegi eu lleisiau. Yn bwysicach, mae angen i ni ddatblygu ein sgiliau gwrando ein hunain er mwyn i ni allu cydnabod yn ogystal â gwrando ar yr hyn a ddywedir ac er mwyn i ni allu ei ddeall. Mae plant a phobl ifanc yn mynegi eu barn mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol – 'print tatws, darn o theatr, darn o gerddoriaeth – mae'r holl bethau hyn yn gwbl berthnasol,' dadleuodd; ein her yw gallu cydnabod y cyfleoedd creadigol gwahanol hyn fel mynegiant o'u lleisiau, ac ymateb yn unol â hynny.

Daeth i ben drwy atgoffa'r cyfranogwyr o'r llwyfannau niferus sydd eisoes ar gael sy'n galluogi plant a phobl ifanc i fynegi eu lleisiau, gan gynnwys cynghorau ysgol, fforymau ieuenctid, a grwpiau cyfranogi. Ein cyfrifoldeb ni yw manteisio ar y llwyfannau hyn, gwrando ar yr hyn sy'n cael ei ddweud a'i ddeall.

Thema 1: Beth yw bywydau a chymhelliant diwylliannol plant a phobl ifanc?

Yn dilyn y Comisiynydd Plant, siaradodd **Lynn McDonald, Athro Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Middlesex**, am ei phrofiadau o weithio fel ymgynghorydd proffesiynol mewn 20 o wledydd i ysgogi teuluoedd ar incwm isel, sydd ar y cyrion yn gymdeithasol i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a gweithgareddau eraill; a'i hymchwil sylweddol i'r maes hwn, sy'n drwyadl ac yn feintiol, gan gynnwys treialon rheoledig ar hap.

Dechreuodd drwy bwysleisio pwysigrwydd y teulu a'r cyd-destun cymunedol ehangach. Mae plant yn dyheu am gael sylw cadarnhaol gan eu teuluoedd, eu rhieni neu eu gofalwyr sy'n oedolion, ac mae gweithio gyda grwpiau aml-deuluol wedi bod yn ffordd effeithiol iawn o ennyn eu diddordeb. Weithiau bydd gan gymunedau lleol syniadau negyddol am amgueddfeydd a sefydliadau diwylliannol yn seiliedig ar stereoteipiau ac mae hyn yn creu rhwystrau sylweddol i gyfranogiad diwylliannol. Dim ond drwy brofiadau cadarnhaol, dro ar ôl tro, y gellir chwalu stereoteipiau o'r fath. 'Nid yw profiadau untro yn gweithio,' honnodd, 'rhaid i chi gymryd rhan mewn projectau sy'n rhoi profiadau dro ar ôl tro; rhaid iddynt fod yn gyfranogol ac mae'n rhaid iddynt gael trefniadau llywodraethu ar y cyd'.

Amlinellodd sawl argymhelliad ar gyfer arfer da o ran cynnwys plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau diwylliannol. Roedd y rhain yn cynnwys ymgorffori llywodraethu ar y cyd ac egwyddorion cydgynhyrchu; sicrhau bod pwyllgorau cynllunio'n cynrychioli diwylliannau; sicrhau mai plant a phobl ifanc yw o leiaf hanner y paneli sy'n gwneud penderfyniadau; darparu cyfleoedd i ddysgu drwy brofiad yn hytrach na chyfleoedd didactig; ac atgyfnerthu cadarnhaol drwy ddarparu lluniaeth, gwobrwyon, a digwyddiadau dathlu.

Thema 1: Beth yw bywydau a chymhelliant diwylliannol plant a phobl ifanc?

Agorodd y trydydd siaradwr ar y thema hon, **Carol Rogers, Cyfarwyddwr Gweithredol Addysg, Cymunedau ac Ymwelwyr yn Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl**, ei haraith gyda datganiad pryfoclyd ond difrifol: nid yw'r sectorau diwylliannol a threftadaeth yn uniaethu â bywydau a diddordebau pobl ifanc. Mae arolwg Cymryd Rhan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn awgrymu er bod 99% o'r holl blant a phobl ifanc 5-15 oed wedi ymwneud â'r celfyddydau ledled y DU, dim ond 61% a oedd wedi ymwneud ag amgueddfeydd.

Prin iawn yw dealltwriaeth plant a phobl ifanc, os o gwbl, o'r cyfleoedd diwylliannol sydd ar gael iddynt mewn amgueddfeydd, neu sut y gellir cael mynediad ddynt. Nid diffyg cymhelliant yw'r rheswm dros hyn. Mae pobl ifanc heddiw yn ddefnyddwyr a chyfranwyr gweithredol i ddiwylliant, yn enwedig drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg ddigidol. 'Mae ein cynulleidfaoedd iau yn cael eu hysgogi i fod yn hyrwyddwyr, dylunwyr, curaduron a chynhyrchwyr' dadleuodd '*…os ydynt yn cael eu galluogi i wneud hynny*'. Ein her yw bod yn alluogwyr – i alluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad i'w treftadaeth ddiwylliannol mewn ffyrdd sy'n gweddu orau i'w hanghenion – ond, rhybuddiodd, mae hon yn fwy o her na'r disgwyl. Dim ond nodau arwynebol y gall projectau a chanddynt derfyn amser a chyllid tymor byr eu cyflawni. Mae strategaeth a buddsoddiad hirdymor yn hanfodol.

Daeth i ben drwy dynnu sylw at ddiffyg sylfaenol: 'ble mae'r unigolyn ifanc yn yr ystafell heddiw?' Yn rhy aml, mae barn plant a phobl ifanc yn cael ei hanwybyddu. Mae angen iddynt gymryd rhan weithredol yn y trafodaethau hyn.

Trafodaethau Thema 1

Yn dilyn y tair araith, rhannwyd y cyfranogwyr yn grwpiau trafod. Y prif faterion a phynciau a drafodwyd oedd:

Bywyd diwylliannol pwy? Yr her o ddiffinio

Beth mae cyfranogiad diwylliannol yn ei olygu i blant a phobl ifanc, a phwy ddylai benderfynu? Gall diffiniadau traddodiadol gynnwys cymryd rhan yn y celfyddydau, treftadaeth, cerddoriaeth neu theatr; ond ceir pob math o weithgareddau eraill sy'n chwarae rhan allweddol mewn diwylliant ieuenctid, fel sgrialu, blogio, neu ddawnsio stryd ac ni roddir cyfrif am y rhain bob amser. Mae llawer o arolygon cyhoeddedig ar gyfranogiad diwylliannol yn dibynnu ar ddiffiniadau traddodiadol o ddiwylliant nad ydynt yn adlewyrchu realiti bywydau diwylliannol plant.

Y cyd-destun teuluol

Roedd llawer yn cytuno na ddylid ystyried plant a phobl ifanc ar wahân i'w teuluoedd neu eu gofalwyr. Yn rhy aml mae 'gweithgareddau teuluol' yn cael eu hanelu at y plentyn, ac nid yw'n cynnwys ffordd o ymgysylltu â rhieni neu ofalwyr sy'n oedolion. Er mwyn i gyfranogi fod yn fwy ystyrlon, dylid rhoi mwy o bwyslais ar ymgysylltu aml-lefel â'r teulu cyfan.

Deall cymunedau

Rhaid i sefydliadau diwylliannol wneud mwy fyth i feithrin dealltwriaeth well o gymunedau a gweithio'n fwy helaeth â hwy. Nid oes yn rhaid i 'gymuned' yn yr ystyr hwn fod yn ddaearyddol bob tro; gall fod ar draws gwledydd, yn seiliedig ar hunaniaeth ddiwylliannol neu ddiddordebau cyffredin. Mae gan lawer o'r cymunedau hyn eu rhwydweithiau cyfathrebu sydd wedi'u sefydlu a'u datblygu'n sylweddol eisoes, ond nid yw'r sectorau diwylliannol a threftadaeth bob tro yn llwyddo i fanteisio arnynt. Gall gweithlu sy'n fwy diwylliannol-gynhwysol helpu i ddatrys hyn. Hefyd, dylid gwella'r dulliau cyfathrebu rhwng y sectorau diwylliannol a threftadaeth a swyddogion Datblygu Cymunedau.

Trafodaethau Thema 1

Yr angen am newid sefydliadol

Mae newid sefydliadol yn hanfodol er mwyn i'r sectorau diwylliannol a threftadaeth ddeall yn well fywydau diwylliannol plant a phobl ifanc. Byddai llawer o'r newidiadau hyn yn galw am weddnewid yr egwyddorion a'r strwythurau sefydliadol sydd ar waith ar hyn o bryd yn llwyr. Gyda'i gilydd, nododd y grwpiau y meysydd y mae angen rhoi sylw iddynt:

+ **Llywodraethu**. Roedd llawer yn teimlo y dylai sefydliadau diwylliannol a threftadaeth wneud mwy i alluogi cymunedau, teuluoedd, plant a phobl ifanc i chwarae rhan weithredol ar fyrddau a phwyllgorau gwneud penderfyniadau. Cafodd y defnydd o fforymau cyfranogol fel rhan o'r project *Creu Hanes* yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru eu defnyddio fel enghraifft o gamau cadarnhaol sy'n cael eu cymryd i'r cyfeiriad hwn.
+ **Staff**. Mae'n hanfodol bod staff ar bob lefel, ond yn enwedig y rhai ar y rheng flaen, yn meddu ar y sgiliau i weithio gyda phlant a phobl ifanc o gefndiroedd amrywiol ac ymgysylltu â hwy. Ni ddylid gweld hyn fel cyfrifoldeb un aelod o staff neu dîm bach. Dylai'r cyhoedd allu adeiladu cydberthnasau dibynadwy gyda sefydliad neu leoliad yn hytrach nag unigolyn.
+ **Ymchwil ac effaith**. Roedd llawer yn teimlo y gall astudiaethau gwerthusol fod yn gamarweiniol. Yn rhy aml mae'r pwyslais ar ddathlu canlyniadau cadarnhaol yn hytrach nag ymdrin â'r negyddol. Mae mwy o onestrwydd yn hanfodol. Anaml iawn y mae gwerthusiadau o'r fath yn ystyried effaith hirdymor neu ganlyniadau cymdeithasol ehangach. Mae angen ymchwil fwy hydredol, ansoddol.

Trafodaethau Thema 1

Goresgyn y rhwystrau

Roedd rhwystrau i gyfranogiad yn thema allweddol. Teimlwyd bod trafnidiaeth yn broblem fawr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Trafodwyd rhwystrau o ran mynediad, cost a daearyddiaeth hefyd. Ymhlith yr awgrymiadau i oresgyn rhai o'r rhwystrau hyn roedd:

+ **Mynd i'r afael â'r rhwystrau ymarferol**. A allai lleoliadau diwylliannol a threftadaeth fynd gam ymhellach tuag at ddileu rhai o'r rhwystrau ymarferol mwyaf sylfaenol? Er enghraifft, llwyddodd un amgueddfa i annog teuluoedd a oedd wedi ymddieithrio i ymweld drwy ddarparu trafnidiaeth, bwyd, lluniaeth a chymorth logistaidd am ddim i grwpiau a oedd yn ymweld â'r amgueddfa. Roedd rhai o'r farn y byddai hyn yn peri problemau. Byddai'n anodd i sefydliadau ddatrys y broblem drafnidiaeth gyhoeddus, ond efallai y gellid gwneud mwy i hyrwyddo'r angen am well darpariaeth.
+ **Defnyddio technoleg symudol i gau'r bwlch digidol**. Awgrymodd un grŵp mai ffonau symudol o bosibl yw'r llwyfan mwyaf democrataidd a chynhwysol ar gyfer ymgysylltu digidol sydd ar gael heddiw. Gallai sefydliadau diwylliannol a threftadaeth ddefnyddio technoleg symudol yn well i gynyddu cyfleoedd i ymgysylltu.
+ **Defnyddio ymgysylltu rhwng y cenedlaethau i oresgyn cyfyngiadau amser**. Mae amser yn un o'r prif rwystrau i lawer o rieni sy'n gweithio. A allai'r genhedlaeth hŷn chwarae rhan fwy gweithredol o ran annog y genedlaeth iau i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol?

Trafodaethau Thema 1

+ **Creu adeiladau a mannau cynhwysol**. Gall ffurfioldeb rhai adeiladau diwylliannol a threftadaeth fod yn rhwystr i ymgysylltiad. Efallai y bydd rhai teuluoedd yn amharod i ymweld am eu bod yn teimlo'n anghyfforddus mewn mannau o'r fath. Awgrymodd un grŵp y dylid edrych ar seicoleg manwerthu am atebion. Mae archfarchnadoedd, er enghraifft, wedi'u cynllunio i ymddangos yn gyfarwydd, yn gyfforddus ac yn groesawgar; mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod beth i'w ddisgwyl mewn mannau o'r fath, ac yn gwybod sut i ymddwyn ynddynt. Cytunodd y grŵp fod hwn yn gynnig y mae angen ymchwilio ymhellach iddo.
+ **Meddwl yn nhermau mapiau llwybr**. Sut mae plant a phobl ifanc yn clywed am sefydliadau diwylliannol ac yn dod o hyd iddynt yn y lle cyntaf? A oes digon yn cael ei wneud i gryfhau'r sianeli mynediad hyn, neu'r 'mapiau llwybr'?
+ **Cynyddu cyfalaf cymdeithasol**. Roedd un grŵp yn teimlo bod cyfalaf cymdeithasol o bwys hanfodol i oresgyn y meddylfryd 'Dwi ddim yn perthyn yno'. Mae llawer o weithgareddau fel canu corawl, rygbi a drama amatur yn denu cyfranogwyr o amrywiaeth eang o ddosbarthiadau economaidd-gymdeithasol. Sut y gellir atgynhyrchu cynhwysedd o'r fath yn y sectorau diwylliannol a threftadaeth?

Thema 2: Beth yw manteision ac effeithiau cyfranogiad yn y ddarpariaeth ddiwylliannol gyhoeddus o ran ymgysylltu â phlant a phobl ifanc?

Agorodd **Mark O'Neill, Cyfarwyddwr, Polisi ac Ymchwil yn Glasgow Life** Life y sesiwn drwy ddatgan bod manteision cyfranogiad diwylliannol yn dra hysbys. Y cwestiwn sydd angen ei ofyn yw 'faint sy'n ddigon?' Dadleuodd efallai fod enillion bach yn gyfystyr â dim enillion o gwbl. Mae projectau tymor byr yn peri problemau penodol: nid ydynt yn gynhyrchiol nac yn gynaliadwy, ac mewn rhai achosion prin yw eu heffaith ar y boblogaeth ehangach.

Bwrodd amheuaeth dros werth astudiaethau gwerthusol, gan ddadlau y gall sefydliadau gamystumio eu canlyniadau mewn ymdrech i brofi eu gwerth neu i sicrhau cyllid. At hynny, mae 'gwerth gweddnewidiol' cyfranogiad diwylliannol yn gysyniad anniffiniol, ac mae'n anodd rhoi tystiolaeth ohono mewn ffordd gredadwy, gydlynol.

Gall ymchwil epidemiolegol ddarparu tystiolaeth fwy credadwy. Mae ymchwil glinigol ddiweddar yn awgrymu bod mynychu digwyddiadau diwylliannol yn gwella iechyd ac yn ymestyn bywydau os bydd patrymau presenoldeb yn rheolaidd ac yn cael eu cynnal. Fel gydag ymarfer corff, ni fydd profiadau untro na phyliau byr o weithgarwch yn gwneud gwahaniaeth. Yr her felly yw meithrin diwylliant o ymweld rheolaidd ymhlith ymwelwyr a chyfranogwyr. Daeth ei araith i ben drwy ofyn a ddylai sefydliadau diwylliannol a threftadaeth fod yn cyfeirio'r rhan fwyaf o'u hadnoddau tuag at ddysgu fel teulu, yn hytrach na dysgu ffurfiol a grwpiau ysgol, oherwydd gall dylanwad teuluol gael effaith ddyfnach ar agweddau plant at gyfranogiad diwylliannol o gymharu ag unrhyw brofiad a geir yn yr ysgol.

Thema 2: Beth yw manteision ac effeithiau cyfranogiad yn y ddarpariaeth ddiwylliannol gyhoeddus o ran ymgysylltu â phlant a phobl ifanc?

Heriodd **Jo Reilly, Pennaeth Cyfranogiad a Dysgu Cronfa Dreftadaeth y Loteri** awgrym Mark O'Neill y dylai dysgu fel teulu gael blaenoriaeth dros ddysgu ffurfiol. Mae ysgolion yn hanfodol i'n galluogi i estyn allan i blant sydd wedi ymddieithrio a'u teuluoedd. Dylai'r sector diwylliannol, dadleuodd, weld athrawon ac arweinwyr ysgolion fel eiriolwyr yn yr achos hwn.

Mae astudiaethau effaith gymdeithasol yn dangos y gall cyfranogiad diwylliannol helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu sgiliau a gwella cyrhaeddiad; gall hefyd gael effaith gadarnhaol ar agweddau ac ymddygiad. Yr her yw ymestyn y manteision hyn i'r rhai nad ydynt yn cael mynediad i ddarpariaeth ddiwylliannol gyhoeddus ar hyn o bryd.

Pwysleisiodd bwysigrwydd cyflawni yn lleol a chydweithio. Cyfeiriwyd at *Gwreiddiau Ifanc*, un o fentrau Cronfa Dreftadaeth y Loteri, fel enghraifft.[19] Mae'r rhaglen hon yn cyllido partneriaethau sefydliadau treftadaeth ac ieuenctid sy'n rhoi cyfle i bobl greu eu projectau treftadaeth eu hunain ar y cyd. Cafodd project diweddar yng Nghanolfan Southbank, Llundain, hefyd ei nodi fel enghraifft o arfer da, lle y gwahoddodd y Royal Festival Hall ysgol gynradd leol i ddefnyddio eu hadeilad fel ystafell ddosbarth am dymor cyfan.

[19] http://www.hlf.org.uk/HowToApply/programmes/Pages/YoungRoots.aspx#.Ux3PNaFFDcs

Trafodaethau Thema 2

Yn y drafodaeth grŵp a ddilynodd, ystyriodd y cyfranogwyr gamau ymarferol y gellid eu cymryd tuag at gynyddu cyfranogiad ac ymgorffori arfer gorau. Trafodwyd y themâu canlynol:

Gwneud defnydd gwell o fannau cyhoeddus

Gallai amgueddfeydd a lleoliadau diwylliannol neu dreftadaeth eraill annog cyfranogiad drwy greu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio eu hadeiladau mewn ffordd sy'n fwy hyblyg ac amlochrog. Er enghraifft, mae gwaith gweddnewid sylweddol yn mynd rhagddo ar adeilad Llyfrgell Caerffili. Ochr yn ochr â'r llyfrgell fenthyca, bydd y mannau newydd yn cynnig amrywiaeth llawer ehangach o adnoddau a gwasanaethau, gan gynnwys ardal amgueddfa gyda lle astudio, lle i bobl ifanc, ac ystafelloedd cyfarfod cymunedol.[20] Gallai rhagor o ymchwil helpu i benderfynu sut mae mannau diwylliannol a threftadaeth yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, a sut y mae strwythur a dylunio yn effeithio ar batrymau ymddygiad yn y mannau hyn.

Ffrydiau cyllido

Sut y gall cyllidwyr neu ffrydiau cyllido helpu i sicrhau effaith fwyaf bosibl yn sgil cyfranogiad diwylliannol? Mae ffrydiau cyllido parhaus yn fwy buddiol na chyllid tymor byr, seiliedig ar brojectau. Gellid creu mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc gael mynediad i ffynonellau cyllid iddynt hwy eu hunain, a gellid rhoi gwell system cymorth ar waith i annog a chynorthwyo eu ceisiadau.

Llywodraethu

Teimlwyd y gallai sefydliadau diwylliannol, celfyddydol a threftadaeth wneud mwy i alluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau ac eistedd ar fyrddau llywodraethu.

[20] http://www.caerphilly.gov.uk/site.aspx?s=1e2r0t4KDaR0UP8RXvxG3g==

Trafodaethau Thema 2

Cod moeseg ledled y DU

Drwy gydol y drafodaeth, daeth yn amlwg bod diddordeb mewn creu fframwaith, cyfres o egwyddorion neu god moeseg i geisio egluro, ymgorffori ac annog arferion gorau mewn cyfranogiad diwylliannol i blant a phobl ifanc mewn tlodi. Ni ddylai'r egwyddorion hyn gael eu hanelu at y sector diwylliannol yn unig, ond yn hytrach at gydlynu systemig ehangach. Dylai awdurdodau lleol, cyllidwyr, academyddion, byrddau iechyd, ysgolion a rhanddeiliaid eraill allu ymrwymo iddynt; a dylent nodi sut y gellir cyfuno adnoddau, tystiolaeth ac ymchwil yn y ffordd orau ar draws y sectorau.

Diffinio amcanion

Nododd un cyfranogwr, cyn y gellir llunio cyfres o egwyddorion, y cam cyntaf fyddai diffinio nod neu ganlyniad credadwy: ydy hyn yn ymwneud â defnyddio cyfranogiad diwylliannol mewn ymdrech i liniaru tlodi, ynteu a yw'n ymwneud â'r nod mwy cyraeddadwy o fynd i'r afael â rhai o'i effeithiau negyddol?

Thema 3: Beth a ddywed gwaith ymchwil wrthym sy'n rhaid ei wneud er mwyn newid bywydau diwylliannol plant a phobl ifanc er gwell ac yn gynaliadwy?

Sarah Teague, Comisiynydd Dysgu a Datblygu Cyngor Ynys Wyth oedd y siaradwr cyntaf i wneud cyflwyniad ar y thema hon. Dadleuodd mai dysgu fel teulu yw'r ymyriad mwyaf pwerus i ni allu effeithio ar fywydau, agweddau a chyrhaeddiad plant a phobl ifanc. Yn aml, bydd plentyn yn cael ei gyflwyniad cyntaf i ddarpariaeth ddiwylliannol gyhoeddus drwy riant neu aelod o'r teulu sy'n oedolyn.

Honnodd y byddai mwyafrif y rhieni'n dymuno sicrhau bod eu plant yn cael gwell cyfleoedd na'r rhai a gawsant hwy eu hunain, ond eu bod yn wynebu rhwystrau cudd rhag cyfranogi. Mae'n bosibl eu bod wedi cael profiadau negyddol o ymgysylltu diwylliannol fel plant sydd wedi gwneud iddynt benderfynu peidio â chyfranogi fel oedolion. 'Mae a wnelo Dysgu fel Teulu gymaint â newid *agweddau* at ddysgu, cyfranogiad diwylliannol a dinesig ag â chymwysterau a datblygu sgiliau' dadleuodd. Mae'r rhaglenni Dysgu fel Teulu gorau yn mynd i'r afael â rhagdybiaethau negyddol drwy leihau pryderon neu ofnau a all fod yn rhwystr i gyfranogi; maent hefyd yn cynnwys y teulu cyfan.

Rhoddodd sawl enghraifft o brojectau cydgynhyrchu llwyddiannus y bu'n ymwneud â hwy. Mae hyn yn cynnwys llunio 'canllawiau bras' i ddarpariaeth ddiwylliannol a luniwyd gan rieni ar gyfer rheini. Daeth i ben drwy bwysleisio bod tystiolaeth yn dangos bod y sgiliau, yr ymddygiad a'r agweddau sy'n cael eu meithrin ar raglenni Dysgu fel Teulu yn dal i gael effaith ymhell ar ôl i'r rhaglenni ddod i ben.

Thema 3: Beth a ddywed gwaith ymchwil wrthym sy'n rhaid ei wneud er mwyn newid bywydau diwylliannol plant a phobl ifanc er gwell ac yn gynaliadwy?

Dechreuodd yr ail siaradwr, **Sarah Crawley, Pennaeth Tlodi ac Atal Tlodi Dinas a Sir Abertawe** gyda throsolwg o strategaethau presennol y llywodraeth sy'n anelu at fynd i'r afael â thlodi mewn perthynas â phlant a theuluoedd, yng Nghymru a ledled y DU.[21]

Dadleuodd mai cael unigolion i gymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n seiliedig ar y celfyddydau yw'r cam cyntaf tuag at feithrin cydberthnasau yr ymddiriedir ynddynt. Gall hyn ddarparu cyfleoedd i ddechrau ehangu trafodaethau sy'n ymwneud â phrofiadau o dlodi ac allgáu cymdeithasol.

Nid yw plant a phobl ifanc yn ddioddefwyr goddefol tlodi ac anfantais. Gallant helpu i ddod o hyd i atebion. Yn aml nid oes gan oedolion y gallu i 'feddwl yn ffres', sy'n reddfol mewn plant. 'Dylai plant fod yn cymryd rhan yn y frwydr am gynnydd cymdeithasol' dadleuodd 'oherwydd bod ganddynt yr hawl i hyrwyddo eu diddordebau hunain… ac oherwydd bod ganddynt wybodaeth a syniadau y gall pawb gael budd ohonynt'.

Dylai plant a phobl ifanc benderfynu beth sydd ag arwyddocâd diwylliannol iddynt hwy, a sut y maent am ymdrin ag adnoddau diwylliannol a chymdeithasol a phrofi a diffinio'r rhain. Er enghraifft, gellid defnyddio iPads i annog dysgu hunangyfeiriedig, ac i ddod â diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau i'r bobl hynny nad ydynt yn cael mynediad i'n hadeiladau ffisegol neu'n methu â chael mynediad i'n hadeiladau ffisegol. Mae Dysgu fel Teulu hefyd yn allweddol.

[21] Soniwyd am y canlynol: DfE, *A new approach to child poverty: tackling the causes of disadvantage and transforming families' lives* (5 Ebrill 2011); Llywodraeth Cymru, *Mesur Plant a Theuluoedd* (Cymru) (2010); Llywodraeth Cymru, *Strategaeth Tlodi Plant Cymru* (Chwefror 2011).

Trafodaethau Thema 3

Awgrymodd y cyfranogwyr nifer o ffyrdd y gall lleoliadau neu sefydliadau diwylliannol cyhoeddus sicrhau'r effaith fwyaf bosibl ar fywydau diwylliannol plant a phobl ifanc, gan gynnwys:

Ymgorffori newid sefydliadol

Dylai egwyddorion ymarfer cyfranogol gael eu hymgorffori mewn strategaethau sefydliadol a disgrifiadau swydd ar bob lefel, a dylai staff gael eu hyfforddi'n gywir a'u cefnogi i ymdrin â grwpiau anodd eu cyrraedd neu grwpiau diamddiffyn. Trafodwyd *The Happy Museum* ac awgrymodd un grŵp y dylai'r egwyddorion hyn gael eu mabwysiadu yn fwy eang, ac y dylai lles a newid ymddygiadol gael eu hymgorffori mewn polisïau strategol.[22]

Cynyddu'r pwyslais ar ddysgu fel teulu

Honnwyd bod ymyriadau teuluol yn hanfodol i gyflawni effaith hirdymor, oherwydd bod agweddau a gwerthoedd yn cael eu trosglwyddo o un aelod o'r teulu i'r llall neu o un genhedlaeth i'r llall.

Canolbwyntio ar y cyd-destun ehangach

Teimlwyd bod cynnydd mewn gweithio traws-sector a dysgu ar y cyd yn hanfodol. Nid oes rhaid i gydweithio a rhannu arfer gorau gael ei gyfyngu i Gymru neu'r DU. Er enghraifft, mae Llenyddiaeth Cymru ar hyn o bryd yn edrych ar sut y mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn barddoniaeth a hip hop yn Efrog Newydd, ac yn ystyried sut y gall y modelau cyfranogol hyn gael eu haddasu ar gyfer Cymru.

Gweddnewid mannau lleol

Rhoddwyd enghraifft o raglen yn Coventry lle y gweddnewidiwyd Cwt Sgowtiaid, nas defnyddiwyd llawer arno, yn fan cyhoeddus a ddaeth yn ganolfan i'r gymuned leol.

[22] http://www.happymuseumproject.org/

Trafodaethau Thema 3

Diffinio cydgynhyrchu

Er y credwyd bod cydgynhyrchu yn fethodoleg hanfodol i'w mabwysiadu, nodwyd bod angen mwy o gysondeb ynghylch diffinio yr hyn y mae'n ei olygu mewn perthynas â chyfranogiad diwylliannol a sut beth fydd cydgynhyrchu da yn ymarferol.

Datblygu ymwybyddiaeth o ddewisiadau'r rhywiau

Mae ymchwil wedi dangos bod disgwyliadau ymwelwyr neu gyfranogwyr yn aml yn rhyw-benodol. Awgrymodd arbrawf a gynhaliwyd gan NIACE fod dynion yn fwy tebygol o fynd i ddigwyddiadau os yw'r gwahoddiadau wedi'u cyfeirio'n benodol at 'Dadau a Mamau' yn lle 'rhieni'. Drwy ddatblygu ymwybyddiaeth o faterion rhyw-benodol, gall sefydliadau diwylliannol ddechrau mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau anweledig i gyfranogi.

Datblygu ymwybyddiaeth o is-ddiwylliannau ieuenctid

Nid yw plant a phobl ifanc yn grŵp unffurf. Ac eithrio gwahaniaethau o ran rhyw, oed, ethnigrwydd neu ddaearyddiaeth, ceir pob math o is-ddiwylliannau eraill y maent yn uniaethu â hwy.

Meithrin cymorth rhwng cyfoedion

Mae hon yn ffordd effeithiol o ymestyn allan i'r gymuned ehangach. Er enghraifft gallai mamau ifanc sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgarwch diwylliannol gael eu dysgu i gynnal cwrs tebyg i famau beichiog yn eu cymunedau lleol.

Newidiadau i ffrydiau cyllido

A allai cyrff cyllido helpu drwy newid eu hamodau? Gallai cyllidwyr flaenoriaethu projectau sy'n dechrau ymagwedd newydd at gyfranogiad diwylliannol, ac sydd hefyd yn dangos sut y gall yr ymagwedd hon gael ei hymgorffori yn yr hirdymor.

Casgliadau a ffyrdd ymlaen

Agorwyd y sesiwn olaf gyda chwestiwn: ymhen dwy flynedd, lle hoffem ni fod wedi cyrraedd, a pha gamau ymarferol y gallwn eu cymryd tuag at gyflawni hyn? Cododd y trafodaethau nifer o gwestiynau a heriau, a grynhoir isod. Ceir crynodeb o'r camau gweithredu a'r camau ymarferol a awgrymir yn Rhan 1 yr adroddiad hwn.

Cwestiynau a heriau

+ **Diffinio amcanion allweddol**. A yw'r mater yn ymwneud â mynd i'r afael â thlodi, ynteu liniaru ei effeithiau?
+ **Faint sy'n ddigon?** Mae tensiwn rhwng ansawdd y profiad y gellir ei gael drwy gyfranogi mewn projectau ar raddfa fach, a swm y projectau o'r fath sydd eu hangen i effeithio ar y boblogaeth ehangach. A ellir trefnu projectau bach ar raddfa fwy i gyflawni effaith fawr, a sut?
+ **Cynnwys lleisiau plant a phobl ifanc**. Mae'r syniad y dylai plant a phobl ifanc ymwneud â dylunio a chyflawni projectau sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt yn gysyniad cyfarwydd, ond i ba raddau y mae'r sector diwylliannol wedi ystyried hyn?
+ **Deall a chydnabod gwahaniaeth**. Mae angen i unrhyw ymdrech i feithrin cynhwysiant diwylliannol ystyried cymhlethdod, amrywiaeth a lluosogrwydd anghenion plant a phobl ifanc, nid yn unig o ran rhyw, oed ac ethnigrwydd, ond hefyd o ran gwahaniaethau daearyddol, arddulliau dysgu neu'r is-ddiwylliannau gwahanol y maent yn dewis uniaethu â hwy. Beth y gellir ei wneud i ddeall yr anghenion gwahanol hyn yn well?

Casgliadau a ffyrdd ymlaen

+ **Bod yn fwy gonest wrth werthuso**. Mae paratoi tystiolaeth werthusol sy'n bodloni gofynion gwleidyddion, cyllidwyr a chyrff llywodraethu, ond sydd hefyd yn ddefnyddiol, yn onest ac yn gadarn, yn her. Yn rhy aml, 'dangoswch i mi fod hyn yn gweithio' yw'r feddylfryd sy'n sail i werthuso, yn hytrach nag 'a yw hyn yn gweithio ac, os nad yw, pam?'
+ **Cryfhau cydweithio traws-sector**. Mae angen i'r sectorau diwylliannol a threftadaeth weithio ar y cyd â sectorau a darparwyr gwasanaethau eraill a rhannu eu hamcanion, gan gynnwys ysgolion, awdurdodau lleol, elusennau, cyllidwyr, cymdeithasau tai a byrddau iechyd. Yn benodol, mae angen mwy o gydweithio rhwng ymchwilwyr academaidd ac ymarferwyr rheng flaen. Mae strategaethau a pholisïau llywodraethu, yn lleol ac yn genedlaethol, yn allweddol o ran sicrhau nod cydlynus, ac i sefydlu fframweithiau a fydd yn galluogi ac yn annog gweithio traws-sector. Sut y gellir annog hyn?
+ **Eiriolaeth**. Teimlwyd bod angen eiriolaeth fwy effeithiol i ddangos bod sefydliadau neu leoliadau diwylliannol, treftadaeth a chelfyddydol yn ased craidd mewn agendâu gwrthdlodi.

Atodiadau

Cyfranogwyr Rhaglen Llyfryddiaeth

Cyfranogwyr

David Anderson
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Amgueddfa Cymru

Launa Anderson
Prif Swyddog Ymchwil
Llywodraeth Cymru

Kay Andrews (y Farwnes)

Jonathan Berry
Uwch-arolygydd Henebion ac Archaeoleg
CADW

Sarah Crawley
Pennaeth Tlodi ac Atal Tlodi
Dinas a Sir Abertawe

Michael Curties
Rheolwr Perfformiad a Gwella Rhaglenni ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf
Llywodraeth Cymru

Jeff Cuthbert (AC)
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Llywodraeth Cymru

Damian Walford Davies
Cadeirydd
Llenyddiaeth Cymru

Jocelyn Dodd
Cyfarwyddwr, Canolfan Ymchwil Amgueddfeydd ac Orielau Ysgol Astudiaethau Amgueddfeydd
Prifysgol Caerlŷr

Elisabeth Elias
Llywydd, Bwrdd Ymddiriedolwyr
Amgueddfa Cymru

Liz Girling
Rheolwr Datblygu
Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Arwel Jones
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus
Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Emily Jones
Swyddog Ymchwil
NIACE

Stacey Jones
Hyfforddwr FAST (Teuluoedd ac Ysgolion gyda'i Gilydd)
Achub y Plant Cymru

Lesley-Anne Kerr
Pennaeth Datblygu Amgueddfeydd
CyMAL

Janice Lane
Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol
Amgueddfa Cymru

Lynn McDonald
Athro Gwaith Cymdeithasol
Prifysgol Middlesex

Mark O'Neill
Cyfarwyddwr, Polisi ac Ymchwil
Glasgow Life

Caroline Pudney
Archaeolegydd Cymunedol
CADW

May Redfern
Ymgynghorydd Amgueddfeydd

Jo Reilly
Pennaeth Cyfranogiad a Dysgu
Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Atodiad 1
Cyfranogwyr

Carol Rogers
Cyfarwyddwr Gweithredol Addysg,
Cymunedau ac Ymwelwyr
Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl

Lleucu Siencyn
Prif Weithredwr
Llenyddiaeth Cymru

Gill Sims
Arolygwr Ei Mawrhydi
Estyn

Jennifer Stewart
Pennaeth Cronfa Dreftadaeth y
Loteri Cymru
Cronfa Dreftadaeth y Loteri Cymru

Sarah Teague
Comisiynydd Dysgu a Datblygu
Cyngor Ynys Wyth

Nêst Thomas
Prif Swyddog Amgueddfeydd a'r
Celfyddydau
Cyngor Gwynedd

Keith Towler
Comisiynydd Plant Cymru

Robert Willis
Uwch Swyddog Ymchwil
(Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol)
Llywodraeth Cymru

Cofnodwyr

Sarah Edmonds
Swyddog Addysg ac Estyn Allan
Llenyddiaeth Cymru

Rosalyn Gee
Rheolwr Addysg, Amgueddfa
Genedlaethol y Glannau
Amgueddfa Cymru

Owain Rhys
Curadur Bywyd Cyfoes
Amgueddfa Cymru

Stephanie Roberts
Cydlynydd y seminar ymchwil
Amgueddfa Cymru

Emma Routley
Cynrychiolydd y Ffederasiwn
Amgueddfeydd, a Swyddog Addysg,
Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru
Amgueddfa Cymru

Rhaglen

9.35 – 9.50am
Cyflwyniad (David Anderson, Amgueddfa Cymru)

9.50 – 10.00am
Araith gan y Farwnes Kay Andrews

10.00 – 11.30am
Thema 1: Beth yw bywydau a chymhelliant diwylliannol plant a phobl ifanc?

11.45 – 12.30pm
Thema 2: Beth yw manteision ac effeithiau cyfranogiad yn y ddarpariaeth ddiwylliannol gyhoeddus o ran ymgysylltu â phlant?

12.30 – 12.45pm
Araith gan Jeff Cuthbert AC, Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Llywodraeth Cymru

2.00 – 3.15pm
Thema 3: Beth a ddywed gwaith ymchwil wrthym sy'n rhaid ei wneud er mwyn newid bywydau diwylliannol plant a phobl ifanc er gwell ac yn gynaliadwy?

3.30 – 4.00pm
Casgliadau a'r ffordd ymlaen: beth sy'n rhaid ei wneud?

Llyfryddiaeth

Adroddiadau ymchwil, gwerthusiadau ac adolygiadau

Audiences Northern Ireland, *Barriers to Access to the arts and to Intercultural Arts Engagement as experienced by the Chinese and Indian Communities in Northern Ireland*, gan J. Edmund ac eraill (Mehefin 2007)

Bloomfield, Sarah, a Mark Pragell, *Main Technical Report: Attending Heritage Sites, a quantitative analysis of data from the Taking Part survey* (2007)
http://www.english-heritage.org.uk/content/imported-docs/p-t/technical_report_quantified_analysis_taking_part_survey_tagged.pdf

Comisiwn Addysg Maer Lerpwl, *Education in Liverpool: Data Report for the Mayor of Liverpool's Education Commission* (Medi 2012)
http://liverpool.gov.uk/media/157202/Education-Commission-Data-Report-September-2012.pdf

Comisiwn Addysg Maer Lerpwl, *From Better to Best: The Report of the Mayor of Liverpool's Education Commission* (Gorffennaf 2013)
http://liverpool.gov.uk/media/589311/education-commission-report-july-2013.pdf

Cyngor Celfyddydau Lloegr, *What's art got to do with it? Briefing paper on the role of the arts in neighbourhood renewal*, gan Phyllida Shaw (Mai 2003)
http://www.artscouncil.org.uk/media/uploads/documents/publications/801.pdf

Cyngor Celfyddydau Lloegr, *Be Creative Be Well: Arts, wellbeing and Local Communities*, gan Richard Ings, Nikki Crane a Marsaili Cameron (2012)
http://www.artscouncil.org.uk/media/uploads/pdf/BCBW_final.pdf

Daly, M., *Combating child poverty through measures promoting the socio-cultural participation of clients of the Public Centres for Social Welfare: Synthesis Report* (Lwcsembwrg: Swyddfa Gyhoeddiadau'r Undeb Ewropeaidd, Medi 2012)
http://bookshop.europa.eu/en/combating-child-poverty-through-measures-promoting-the-socio-cultural-participation-of-clients-of-the-public-centres-for-social-welfare-pbKEBF12001/

Desforges, C., ac A. Abouchaar, *The Impact of Parental Involvement, Parental Support and Family Education on Pupil Achievements and Adjustment: A Literature Review* (Yr Adran Addysg a Sgiliau: 2003)
http://bgfl.org/bgfl/custom/files_uploaded/uploaded_resources/18617/desforges.pdf

Edwards, J., *The MAGPIE programme: a summary of the practice and impacts of a partnership between museums and schools in Manchester 2004-2010* (Renaissance North West: Mawrth 2011)
http://museumdevelopmentnorthwest.files.wordpress.com/2012/06/magpie-report-final-jun.pdf

EuroChild, *Valuing Children's Potential: How children's participation contributes to fighting poverty and social exclusion*, gol. gan Mieke Schuurman (Brwsel: Eurochild, Medi 2010)
http://www.eurochild.org/fileadmin/ThematicPriorities/Participation/Eurochild/Valuing Children_sPotential.pdf

Harris, Kevin, a Martin Dudley, *I didn't know I Could: Museums and Young People Looked After* (Renaissance East of England, Mawrth 2011)
http://www.sharemuseumseast.org.uk/shares/resource_106.pdf (crynodeb)
http://www.local-level.org.uk/uploads/8/2/1/0/8210988/maclareportfinal.pdf (adroddiad llawn)

Jermyn, Helen, *Arts and Social Exclusion: a report prepared for the Arts Council of England* (Tachwedd 2011)

Mirza, Munira, gol., *Culture Vultures: Is UK arts policy damaging the arts?* (Llundain: Policy Exchange, 2006)
http://www.policyexchange.org.uk/publications/category/item/culture-vultures-is-uk-arts-policy-damaging-the-arts

NIACE, *The impact of Lifelong Learning on Poverty Reduction: IFLL Public Value Paper 1*, gan R. Sabates (2008)
http://www.niace.org.uk/lifelonglearninginquiry/docs/Public-value-paper-1.pdf

NIACE, *Family learning: a review of the research literature*, gan J. D. Carpentieri (2013)
http://www.niace.org.uk/sites/default/files/project-docs/family_learning_research_review__final_-_8_june_2012.pdf

NIACE, *Family Learning Works: The Inquiry into Family Learning in England and Wales* (Hydref 2013)
http://www.niace.org.uk/current-work/family-learning-inquiry

Paul Hamlyn Foundation summary report, *Whose Cake is it anyway? A collaborative investigation into engagement and participation in 12 museums and galleries in the UK*, gan B. Lynch (2009)
http://www.phf.org.uk/page.asp?id=1417

Pratten, Belinda, *Mapping the Cuts: A report to the Esmée Fairbairn Foundation* (Mai 2013)
http://esmeefairbairn.org.uk/news-and-learning/publications/mapping-the-cuts-a-report-to-the-esme-fairbairn-foundation

RAND, *Guide to the Literature on Participation in the Arts*, gan K. F. McCarthy, E. H. Ondaatje and L. Zakaras (Medi 2001)
http://www.rand.org/content/dam/rand/pubs/drafts/2006/DRU2308.pdf

Sefydliad Joseph Rowntree, *Poverty, Participation and Choice: The Legacy of Peter Townsend,* gan Emanuele Ferragina, Mark Tomlinson a Robert Walker (Mai 2013)
http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/society-poverty-participation-full.pdf

Smith, yr Athro Dai, *Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru* (Medi 2013)
http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/publications/wagreviews/arts-in-education-review/?skip=1&lang=cy

The Centre for Public Innovation, *Evaluation of the Young Roots programme* (2008-2011)
http://www.hlf.org.uk/aboutus/howwework/Documents/Evaluation_Young_Roots2008-2011.pdf

Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, *Family Learning Impact Fund 2008-2011 Summary Paper* (Gorffennaf 2013)
https://www.gov.uk/government/publications/family-learning-impact-fund-2008-to-2011-summary

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, *International comparisons of public engagement in culture and sport,* gan O. Brook (Awst 2011)
https://www.gov.uk/government/publications/international-comparisons-of-public-engagement-in-culture-and-sport

Arolygon

Cultural Learning Alliance, *The Case for Cultural Learning: key research findings*
http://www.culturallearningalliance.org.uk/page.aspx?p=93

Cyngor Celfyddydau Cymru, *Arolwg Omnibws y Plant Cyngor Celfyddydau Cymru 2012: Adroddiad ar y Prif Ganfyddiadau* (Ebrill 2013)
www.artscouncilofwales.org/what-we-do/research/annual-surveys/arolwg-omnibwsy-plant?diablo.lang=cym

Cyngor Celfyddydau Cymru, *Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru* (2010)
www.celfcymru.org.uk/what-we-do/research/latest-research/y-celfyddydau-yngnghymru-2010?diablo.lang=cym

Llywodraeth Cymru, *Sbotolau ar Amgueddfeydd 2011* (CyMAL: 2011)

Morris Hargreaves McIntyre for Renaissance North East, *Audience Knowledge Digest: Why people visit museums and what can be done to attract them* (Mawrth 2007)

NIACE, *Adult Participation in Learning Survey Headline Findings* (2013)
http://shop.niace.org.uk/2013-participation-survey-headline-findings.html

Williams, J., ac others, *Growing up in Ireland: National Longitudinal Study of Children – The Lives of 9-year-olds Executive Crynodeb* (2009)

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, *Taking Part 2011/12 Adult and Child Report* (Awst 2012)
https://www.gov.uk/government/publications/taking-part-the-national-survey-of-culture-leisure-and-sport-adult-and-child-report-2011-12

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, *Taking Part 2012/13 Annual Child Report* (Awst 2013)
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/231004/Taking_Part_Year_8_2012_13_Child_Report.pdf

Llyfrau ac erthyglau

Anderson, D., 'The Listening Museum' in *Learning to Live: Museums, young people and education*, gol. K. Bellamy a C. Oppenheim (Llundain: Cynhadledd Sefydliad Ymchwil i Bolisi Cyhoeddus a Chyfawryddwyr Amgueddfeydd Cenedlaethol, 2009), t.30-42

Fifield, Anna, 'Model Solution', *FT Urban Ingenuity* (Medi 12 2013)

Fricker, M., *Epistemic Injustice: Power and the Ethics of Knowing* (Rhydychen ac Efrog Newydd: Gwasg Prifysgol Rhydychen, 2007)

Jones, O., *Chavs, the demonization of the working class* (Llundain: Verso, 2011)

McDonald, L., ac eraill, 'Strategies for High Retention Rates of Low-Income Families in FAST (Families and Schools Together): An Evidence based Parenting Rhaglen in USA, UK, Holland, and Germany' in *European Journal of Developmental Psychology 9:1* (2012), t.75-88

McDonald, L., a Miller, 'How to get Low-income Parents Involved and Engaged at Title I Schools: Identifying Strategies and Demonstrating their Effectiveness using Families and Schools Together (FAST)' (ar y gweill)

O'Neill, M., 'Cultural Attendance and Public Mental Health' yn y *Journal of Public Mental Health 9:4* (2010), tp.22-29

Oman, S., 'A true snapshot of life?' *Arts Professional* (Chwefror 2012) http://www.artsprofessional.co.uk/magazine/article/true-snapshot-life

Simon, N., *The Participatory Museum* (Santa Cruz: Museum 2.0, 2010) http://www.participatorymuseum.org/

Toynbee, P., a D. Walker, *Unjust Rewards: Exposing Greed and Inequality in Britain Today* (Llundain: Granta, 2008)

Traethodau ymchwil

Bagnall, G. R., *Mapping the museum: The cultural consumption and production of two north west heritage sites*, PhD thesis (Salford: Prifysgol Salford, 1999)

Ward, M. R. M., *The Performance of Young Working Class Masculinities in the South Wales Valleys,* traethawd ymchwil PhD heb ei gyhoeddi (Caerdydd: Prifysgol Caerdydd, 2013), gweler pennod 'The Valley Boiz: The Re-Traditionalisation of White Working Class Masculinity in a Post-Industrial Community', t.96-133

Polisïau, strategaethau a fframweithiau

Achub y Plant, *Hawliau Nawr, Hawliau Heddiw: A yw Hawliau Plant yn Realaeth yng Nghymru?* Adroddiad Interim Cyrff Anllywodraethol Cymru gol. Rhian Croke (Caerdydd: Achub y Plant Cymru, Mawrth 2013)

Amgueddfa Cymru, *Gweddnewid Dyfodol Plant drwy greu llwybrau ar gyfer cyfranogiad diwylliannol*
http://www.amgueddfacymru.ac.uk/gweddnewid_dyfodol

Comisiynydd Plant Cymru, *Strategaeth Tlodi Plant: 2012 ymlaen*
http://www.complantcymru.org.uk/uploads/publications/308.pdf

Cyngor Celfyddydau Cymru, *Tlodi Plant ac Agenda'r Celfyddydau – Gwella Hygyrchedd: Dogfen Ategol i Creawdwyr Ifain* (Ionawr 2012)
www.celfcymru.org.uk/c_engagement-and-participation/tlodi-plant-ac-agendar-celfyddydau?diablo.lang=cym

Cyngor yr Undeb Ewropeaidd 'Council conclusions on the role of culture in combating poverty and social exclusion', yn *Official Journal of the European Union* (Rhagfyr 2010)
http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:C:2010:324:0016:0017:EN:PDF

Cymdeithas yr Amgueddfeydd, *Museums Change Lives: The MA's Vision for the Impact of Museums* (Llundain: Cymdeithas yr Amgueddfeydd, Gorffennaf 2013)
http://www.museumsassociation.org/download?id=1001738

Dinas Ranbarth Lerpwl, *Child Poverty and Life Chances Strategy 2011-2014*
http://moderngov.sthelens.gov.uk/mgConvert2PDF.aspx?ID=11210

ERSC, *Consultation Response Social Mobility & Child Poverty Review*
http://www.esrc.ac.uk/_images/PSE_social_mobility_tcm8-18436.pdf

Llywodraeth Cymru, *Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi* (Gorffennaf 2013)

Llywodraeth Cymru, *Strategaeth Tlodi Plant Cymru* (Chwefror 2011)
http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/policy/110203newchildpovstrategy2en.pdf

NIACE, *Connect-Five: Family Learning and Every Child Matters,* gan C. Meade, M. Thomas, P. Lamb ac R. Spacey (NIACE: 2007)
http://shop.niace.org.uk/connect-five.html

UNESCO, *Education for Sustainable Development: Linking Learning and Happiness* (Bangkok: UNESCO, 2007)
http://unesdoc.unesco.org/images/0015/001559/155943eb.pdf

Yr Adran Addysg a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, *Cultural Education: A crynodeb of rhaglens and opportunities* (Gorffennaf 2013)
https://www.gov.uk/government/publications/cultural-education